**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | R Fogarty | P R Hood-Williams |
| L James | D H Jenkins | M Jones |
| J W Jones | M W Locke | |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad |
| Y Cyng. Andrea Lewis | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau |
| Y Cyng. Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu, Cadwraeth a Dylunio |
| Tom Evans | Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B J Rowlands

---

## 53 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau Personol a rhagfarnol.

## 54 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 55 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 56 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 57 Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio 2021/2022

Roedd y Cynghorydd David Hopkins a swyddogion yn bresennol. Adroddwyd ar y canlynol:

- Nid yw Adroddiadau Blynyddol Cynllunio bellach yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag mae'r cyngor yn parhau i ddarparu hyn. Nid yw data ar gyfer meincnodi perfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill wedi bod ar gael ers y pandemig.
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, 29% yn fwy nag yn 2020/21.
- Ymdriniwyd â 97% o geisiadau o fewn amserlenni cytunedig. Y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw 80%.
- Er gwaetha'r cynnydd yn nifer y ceisiadau, nid yw'r incwm o ffïoedd cynllunio wedi cadw i fyny. O'i gymharu â 2018/2019, roedd 300 yn fwy o geisiadau cynllunio ond roedd yr incwm o ffïoedd cynllunio £300,000 yn llai oherwydd y math o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno. Mae ffïoedd ceisiadau yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac nid oes cynnydd wedi'i nodi ar y pwynt hwn.
- Roedd perfformiad apeliadau ychydig yn uwch, ac yn uwch na tharged blwyddyn flaenorol Llywodraeth Cymru. Lle cytunir ar apeliadau, mae'n ymwneud â materion dylunio yn gyffredinol.
- Crëwyd ôl-groniad o orfodi yn sgîl y pandemig oherwydd nad oedd swyddogion yn gallu mynd i safleoedd mor hawdd. Cafodd swyddi staff gwag effaith ar y tîm hefyd.
- Mae ymchwiliad gorfodi yn broses dau gam. Ar gyfer y cam ymchwilio cychwynnol mae targed o 84 ar gyfer y gwaith ymchwilio. Mae'r ail gyfnod yn ymwneud â chymryd camau gweithredu priodol a allai fod yn hysbysiad gorfodi, yn benderfyniad, neu rhoi caniatâd cynllunio.
- Roedd nifer y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ymchwilir i bob cwyn, fodd bynnag, dim ond 32% o'r ymchwiliadau a gwblhawyd o fewn y targed o 84 diwrnod, sef gostyngiad o 51% yn y flwyddyn flaenorol. Mae camau gorfodi'n cael eu blaenoriaethu ar sail difrifoldeb y toriad.
- Disgwylir i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gael ei ddiweddaru. Cesglir data ar gyfer y CDLl o fodeli cynhwysfawr a'r data gorau sydd ar gael gan bartneriaid ymgynghori i greu rhagolygon economaidd gyda'r nod o sicrhau'r lefel uchaf o gywirdeb â phosib.

## 58 Adroddiad Cwynion Blynyddol 2021/22

Roedd y Cynghorydd Andrea Lewis, y Cynghorydd Louise Gibbard a swyddogion yn bresennol. Trafodwyd y canlynol:

- Oherwydd y pandemig, cafodd cwynion eu hatal yn ystod 2020/21 ond yna, gwnaethon nhw gynyddu'n aruthrol wrth i ni ddod allan o'r cyfnodau clo. Gwelodd yr Ombwdsmon gynnydd o 47% ar draws Cymru gyfan.
- Bu oedi wrth lansio'r system TG newydd oherwydd blaenoriaethu taliadau i gefnogi preswylwyr a busnesau. Mae'r system wedi'i chwblhau, mae hyfforddiant staff yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd y system yn mynd yn fyw cyn gynted â phosib.
- Cynyddodd cwynion corfforaethol cam un (anffurfiol) 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn gyfanswm o 1,274 o gwynion, ac roedd cyfiawnhad dros 407 ohonynt. Roedd cynnydd o 16% yng nghwynion cam dau. Roedd hwn yn gyfanswm o 154 o gwynion, yr oedd cyfiawnhad dros 25 ohonynt.
- Bu cynnydd sylweddol o 24% yn nifer y ceisiadau corfforaethol am wasanaeth. Roedd cynnydd sylweddol hefyd o 38% yn y sylwadau corfforaethol. Roedd cwynion a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn gymharol isel.
- Roedd cynnydd o 11% yng nghwynion cam un y Gwasanaethau i Oedolion ac o ran cam dau, roedd cynnydd o un gŵyn yn unig o'i gymharu â ffigurau'r llynedd. Roedd cynnydd o 53% yn nifer y cwynion yr oedd cyfiawnhad drostynt, ac roedd hyn yn bennaf oherwydd oedi wrth drefnu asesiadau neu becynnau gofal oherwydd pwysau staff gan gynnwys darparwyr allanol. Mae pwysau ar wasanaethau a phroblemau recriwtio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi bod yn her ledled Cymru a'r DU.
- Dangosodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ostyngiad, bu gostyngiad o 19% yng nghwynion cam un a gostyngiad o 1 gŵyn yng nghwynion cam dau.
- Roedd llythyr blynyddol yr Ombwdsmon yn adrodd bod 71 o gwynion wedi'u derbyn, gostyngiad o 73 o'r flwyddyn flaenorol.
- Caewyd 76 o gwynion yr Ombwdsmon yn ystod 2021/22, o'r 76 hyn, derbyniodd 10 ohonynt ymyrraeth. O'r 10 a dderbyniodd ymyrraeth, cafodd 6 eu datrys yn gynnar trwy drefniant gwirfoddol a chafodd 4 eu cynnal. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, caewyd 67 o gwynion a derbyniodd 9 ohonynt ymyrraeth, o'r 9 hyn, cafodd 5 eu datrys yn gynnar a chafodd 4 eu cynnal.
- Mae'r tîm cwynion yn cynnal trafodaethau gyda Phennaeth Gwasanaeth a Phrif Swyddogion gan ystyried natur cwynion ac unrhyw dueddiadau neu amlder er mwyn chwilio am welliannau posib.
- Derbyniwyd 360 o ganmoliaethau corfforaethol gyda 96 ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a 100 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Ni adroddwyd am dueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn ond gellir sicrhau eu bod ar gael mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Gall myfyrio ar ganmoliaethau fod yr un mor ddefnyddiol â myfyrio ar gwynion i gymharu meysydd lle mae'r cyngor yn gwneud yn dda.
- Mae amserau ymateb i gwynion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae cwynion am yr adrannau Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid wedi cynyddu.
- Roedd 25 o'r 71 o gwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn ymwneud â chynllunio a Rheoli Adeiladu, ffyrdd a thrafnidiaeth.

59 **Llythyrau**

60 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40am.

**Cadeirydd**